

Rhan 3: Safonau ar gyfer rhaglenni addysg ôl-gofrestru

Nursio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol a rhaglenni sy'n arwain at gymwysterau ymarfer arbenigol mewn nursio cymunedol

DDRAFFT – 11 Ionawr 2021



Cynnwys

Cyflwyniad	3
1. Dethol, derbyn a chynnydd	7
2. Cwricwlwm	8
3. Dysgu ymarfer	9
4. Goruchwylio ac asesu	10
5. Y cymhwyster i'w ddyfarnu	11
Geirfa	12

Ynglŷn â'r safonau hyn

Mae ein rhaglenni addysg a hyfforddiant yn helpu [myfyrwyr](#) nyrsio a bydwreigiaeth i gyflawni safonau hyfedredd a chanlyniadau rhaglenni'r NMC. Rhaid i'r holl weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol ymarfer yn unol â gofynion [y Cod](#), y safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol y mae disgwyl i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gydymffurfio â hwy.

Mae Gwireddu proffesiynoldeb: Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cynnwys y [Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth](#), [Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr](#), a safonau rhaglenni sy'n benodol i bob rhaglen gymeradwy.

Mae ein Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant wedi'u cyflwyno mewn tair rhan:

[Rhan 1: Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth](#)

[Rhan 2: Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr](#)

Part 3: Programme standards

- [Safonau ar gyfer addysg nyrsio cyn-cofrestru](#)
- [Safonau ar gyfer addysg bydwreigiaeth cyn-cofrestru](#)
- [Safonau ar gyfer addysg cymdeithion nyrsio cyn-cofrestru](#)
- [Safonau ar gyfer rhaglenni rhagnodi](#)
- Safonau ar gyfer ôl-gofrestru
- [Safonau ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer](#)

Cyflwyniad

Mae ein rhaglenni Safonau ar gyfer nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol (SCPHN) a'r cymhwyster ymarfer arbenigol cymunedol (SPQ) yn nodi'r safonau ar y gofynion mynediad a'r llwybrau mynediad, y cwricwlwm, y dysgu ymarfer, y goruchwyllo a'r asesu a gwybodaeth am y dyfarniad a'r gofynion cofrestru ar gyfer y rhaglenni ôl-gofrestru hyn.


Mae diogelwch y cyhoedd yn elfen ganolog o'n safonau. Mae nyrsys a bydwreidd cofrestredig sy'n dilyn y rhaglenni ôl-gofrestru hyn yn fyfyrwyr yn y cyd-destun hwn. Byddant mewn cysylltiad â [phobl](#) drwy gydol eu haddysg. Mae'n bwysig eu bod yn magu hyder, ac yn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ymhellach mewn ffordd ddiogel, gefnogol ac effeithiol.

Dylid darllen y safonau rhaglenni hyn ochr yn ochr â'n Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth a'r Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr sy'n gymwys i holl raglenni cymeradwy'r NMC.

Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant

Safonau hyfedredd

ar gyfer proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth



Rhaid i holl raglenni addysg ôl-gofrestru cymeradwy'r NMC gydymffurfio â'r holl safonau hyn cyn y caiff sefydliad addysg ei gymeradwyo i redeg rhaglen gymeradwy.

Mae darparwyr addysg yn llunio eu rhaglenni i gydymffurfio â safonau ein rhaglenni. Maent yn dylunio cwricwla sy'n seiliedig ar y safonau hyfedredd a bennir gennym. Safonau hyfedredd yw'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen ar nyrsys a bydwagedd i ymarfer.

Bydd cwricwla ar gyfer nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol a chymwysterau ymarfer arbenigol cymunedol yn hyblyg i fanteisio ar gyfleoedd i ddysgu ar y cyd, gan gynnwys rhwng rhaglennol ôl-gofrestru a meysydd ymarfer gydag ystod o anghenion dysgu a phrofiad blaenorol fel gweithwyr proffesiynol cofrestredig. Mae myfyrwyr yn cael eu hasesu yn erbyn safonau hyfedredd ar gyfer eu maes ymarfer SCPHN penodol hwy.

Mae'r dyfarniadau fel a ganlyn:

SCPHN: yn y meysydd ymwelwyr iechyd, nyrsio iechyd galwedigaethol, neu nyrsio ysgol.

SPQ: Mae myfyrwyr yn cael eu hasesu yn erbyn safonau hyfedredd ar gyfer yr SPQ cymunedol a fwriadwyd ganddynt. Gall hyn gynnwys nyrsio plant cymunedol, nyrsio anabledau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal, nyrsio practis cyffredinol neu feysydd [nyrsio cymunedol penodedig eraill](#)¹.

Bydd cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus yn cadarnhau bod y myfyriwr yn alluog i ddarparu gofal diogel ac effeithiol mewn rôl SCPHN benodol neu rôl ymarfer-nyrsio SPQ cymunedol.

Rydym yn cyhoeddi safonau hyfedredd ar gyfer SCPHN a Safonau hyfedredd ar gyfer SPQ cymunedol. Rydym hefyd yn cyhoeddi Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig, Safonau hyfedredd ar gyfer bydwagedd a Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio

Drwy ein prosesau [sichrau ansawdd](#) (QA) rydym yn gwirio bod rhaglenni addysg yn cyrraedd ein holl safonau, bod canlyniadau'r rhaglenni yn berthnasol i'r safonau hyfedredd ar gyfer cymwysterau penodol a bod y [sefydliadau addysg cymeradwy](#) (AEI) a'r [partneriaid dysgu ymarfer](#) yn rheoli risgiau'n effeithiol. Rydym yn monitro risgiau i ansawdd mewn addysg a hyfforddiant gan ddefnyddio gwybodaeth fewnol ac allanol. Mae'r broses casglu gwybodaeth hon yn cynnwys dadansoddi adroddiadau gan reolyddion y system.

Cyn y gellir cynnal rhaglen, rhaid inni wneud yn siŵr ei bod yn cyrraedd ein safonau. Rydym yn gwneud hyn drwy broses gymeradwyo yn unol â'n Fframwaith Sicrhau Ansawdd.

Mae'r cyfrifoldeb cyffredinol o ddydd i ddydd am reoli ansawdd unrhyw raglen addysgol yng ngofal yr AEI mewn partneriaeth â'i bartneriaid dysgu ymarfer.

¹ Lle nad yw'r maes SPQ wedi'i bennu ymlaen llaw gan yr NMC rhaid iddo gael ei bennu gan yr AEI fel rhan o broses gymeradwyo'r NMC

Fframwaith deddfwriaethol

Mae Erthygl 5(2) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 ('y Gorchymyn') yn ei gwneud yn ofynnol i'r NMC sefydlu'r safonau hyfedredd sydd eu hangen i ymarferwyr gael eu derbyn i bob rhan o'r gofrestr ac ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol o dan y rhan honno o'r gofrestr. Mae'r erthygl hon yn gymwys i safonau hyfedredd SCPHN.

Mae Erthygl 5(1) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i'r NMC sefydlu'r safonau sydd eu hangen i ymarferwyr gael eu derbyn ar unrhyw ran o'r gofrestr. Mae'r erthygl hon yn gymwys i safonau rhaglen SCPHN.

Mae Erthygl 19(6) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn galluogi'r NMC i sefydlu safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer unrhyw gymwysterau ychwanegol y gellir eu cofnodi ar y gofrestr. Bydd Erthyglau 15(3) i (9) ac erthyglau 16 i 18 yn gymwys yn achos y safonau hynny fel pe baent wedi'u sefydlu o dan erthygl 15(1)(a). Mae hyn yn golygu y gall yr NMC sefydlu safonau addysg a hyfforddiant ac mi all gymeradwyo cwrs addysg neu gymhwyster sy'n gysylltiedig â SPQ.

Mae safonau'r rhaglenni ôl-gofrestru hyn wedi'u sefydlu o dan y darpariaethau hyn.

Rhaglenni SCPHN ôl-gofrestru a SPQ cymunedol

Mae'n bwysig bod ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn pwysleisio bod yn rhaid i raglenni fabwysiadu ymagwedd gynhwysol tuag at recriwtio a dethol, gan sicrhau bod prosesau derbyn yn deg a thryloyw ac yn rhoi sylw i dangynrychiolaeth.

Taith y myfyriwr

Mae'r safonau ar gyfer rhaglenni cymwysterau nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol ac ymarfer arbenigol cymunedol yn dilyn taith y myfyriwr ac maent wedi'u grwpio o dan y pum pennawd canlynol:

1. Dethol, derbyn a chynnydd

Safonau'n ymwneud ag addasrwydd ymgeiswyr a'u bod yn parhau i gyfranogi mewn rhaglen nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol neu raglen sy'n arwain at gymhwyster ymarfer arbenigol cymunedol

2. Cwricwlwm

Safonau ar gyfer cynnwys, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni ar gyfer nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol a chymwysterau ymarfer arbenigol cymunedol

3. Dysgu ymarfer

Safonau sy'n benodol ar gyfer dysgu sy'n digwydd mewn lleoliadau ymarfer ar gyfer myfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni sy'n arwain at gymwysterau nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol ac ymarfer arbenigol cymunedol

4. Goruchwylio ac asesu

Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu diogel ac effeithiol ar gyfer rhaglenni cymwysterau nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol ac ymarfer arbenigol cymunedol

5. Cymhwyster i'w ddyfarnu

Safonau sy'n datgan y dyfarniad a gwybodaeth ar gyfer:

Nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol yn y meysydd: ymwelwyr iechyd, nyrsio iechyd galwedigaethol, nyrsio ysgol

Cymwysterau ymarfer arbenigol: nyrsio plant cymunedol, nyrsio anabledau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal, nyrsio ymarfer cyffredinol neu mewn meysydd ymarfer nyrsio cymunedol eraill a nodwyd.

1. Dethol, derbyn a chynnydd

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

- 1.1 sicrhau bod ymgeiswyr yn:
 - 1.1.1 nyrsys cofrestredig â'r NMC (lefel 1) neu fydwragedd sydd wedi'u cofrestru â'r NMC a'u bod yn gallu ymarfer yn ddiogel ac effeithiol ar y lefel hyfedredd sy'n briodol i'r rhaglen Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN) gymeradwy cyn cael eu hystyried fel bod yn gymwys i wneud cais am fynediad ar y rhaglen
 - 1.1.2 nyrsys cofrestredig â'r NMC (lefel 1) gyda chofrestriad proffesiynol perthnasol sy'n gallu ymarfer yn ddiogel ac effeithiol ar y lefel hyfedredd sy'n briodol i'r rhaglen Ymarfer Arbenigol Cymunedol (SPQ) gymeradwy cyn cael eu hystyried fel bod yn gymwys i wneud cais am fynediad ar y rhaglen
- 1.2 cadarnhau ar ôl eu derbyn bod gan bob ymgeisydd a ddewiswyd i ddilyn rhaglen SCPHN neu SPQ cymunedol y gallu academaidd i astudio ar y lefel sy'n ofynnol ar gyfer y rhaglen
- 1.3 creu cyfleoedd sy'n galluogi nyrsys cofrestredig yr NMC a/neu fydwragedd cofrestredig yr NMC cymwys², gan gynnwys y GIG, dim GIG, sy'n hunangyflogedig neu'n ariannu eu hunain i gael mynediad ar raglen SCPHN neu SPQ cymeradwy'r NMC
- 1.4 cadarnhau bod y trefniadau a'r strwythurau llywodraethu angenrheidiol ar waith i gefnogi dysgu ymarfer, gan gynnwys cymorth gan gyflogwyr ac amser dysgu wedi'i ddiogelu, i alluogi myfyrwyr i ddilyn ac i gael cymorth priodol drwy gydol y rhaglen
- 1.5 ystyried rhoi [cydnabyddiaeth i ddysgu blaenorol](#) y gellir ei fapio ar:
 - 1.5.1 canlyniadau dysgu'r rhaglen a'r Safonau Hyfedredd ar gyfer y maes ymarfer SCPHN a fwriadwyd gan yr ymgeisydd
 - 1.5.2 canlyniadau dysgu'r rhaglen a'r Safonau Hyfedredd ar gyfer y maes ymarfer SPQ a fwriadwyd gan yr ymgeisydd neu mewn maes/meysydd eraill penodedig nyrsio cymunedol
 - 1.5.3 ystyried rhoi cydnabyddiaeth i ddysgu blaenorol y gellir ei fapio i Fframwaith Cymhwysra'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ar gyfer Rhagnodwyr i bob ymgeisydd sy'n gwneud cais am fynediad ar raglenni sy'n cynnwys cymhwyster rhagnodi cymeradwy integredig yr NMC, a
- 1.6 lle mae rhaglenni'n integreiddio cymhwyster rhagnodi cymeradwy'r NMC rhaid sicrhau bod yr ymgeiswyr yn nyrsys cofrestredig (lefel 1), bydwagedd cofrestredig neu SCPHN cyn y gellir ystyried eu bod yn gymwys i gael mynediad.

² Rhaid i ymgeiswyr SCPHN fod yn RN1, bydwraig neu'r ddau. Rhaid i ymgeiswyr SPQ fod yn RN1.

2. Cwricwlwm

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

- 2.1 cadarnhau bod rhaglenni'n cydymffurfio â Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth yr NMC
- 2.2 cadarnhau bod rhaglenni'n cydymffurfio â Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr yr NMC
- 2.3 cadarnhau bod rhaglenni sy'n cynnwys cymhwyster rhagnodi cymeradwy integredig yr NMC yn cydymffurfio â Safonau ar gyfer rhaglenni rhagnodi yr NMC
- 2.4 datgan llwybrau o fewn y rhaglen i:
 - 2.4.1 myfyrwyr i ymuno â'r gofrestr SCPHN mewn maes penodol o ymarfer SCPHN: ymwelwyr iechyd, nyrsio iechyd galwedigaethol, nyrsio ysgol
 - 2.4.2 myfyrwyr anodi eu cofrestriad mewn maes penodol o Ymarfer cymunedol SPQ: nyrsio plant cymunedol, nyrsio anableddau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal, nyrsio ymarfer cyffredinol neu mewn maes/meysydd eraill o nyrsio cymunedol
- 2.5 sicrhau bod deilliannau dysgu'r rhaglen yn adlewyrchu'r:
 - 2.5.1 Safonau hyfedredd ar gyfer SCPHN a phob un o feysydd perthnasol ymarfer SCPHN: ymwelwyr iechyd, nyrsio iechyd galwedigaethol, nyrsio ysgol
 - 2.5.2 Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsio cymunedol sydd wedi'u teilwra i gyd-destun ymarfer cymunedol. Gall y rhain fod o fewn nyrsio plant cymunedol, nyrsio anableddau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal, nyrsio ymarfer cyffredinol neu mewn maes/meysydd eraill o nyrsio cymunedol
- 2.6 Nodi'r cynnwys cyffredinol a phroffesiynol sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r:
 - 2.6.1 Safonau hyfedredd ar gyfer pob maes perthnasol o ymarfer SCPHN: ymwelwyr iechyd, nyrsio iechyd galwedigaethol, nyrsio ysgol
 - 2.6.2 Safonau hyfedredd ar gyfer yr SPQ nyrsio cymunedol sydd wedi'u teilwra i'r maes penodedig o ymarfer nyrsio cymunedol. Gall y rhain fod o fewn nyrsio plant cymunedol, nyrsio anableddau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal, nyrsio ymarfer cyffredinol neu mewn maes/meysydd eraill o nyrsio cymunedol
- 2.7 sicrhau bod cynnwys maes penodol wedi'i gynnwys er mwyn ymuno â'r gofrestr ym mhob maes o Ymarfer SCPHN
- 2.8 sicrhau bod cynnwys o faes penodol wedi'i gynnwys ar gyfer anodiad perthnasol yr SPQ nyrsio cymunedol

- 2.9 sicrhau bod cyfleoedd dysgu wedi'u cyfoethogi gan dechnoleg ac efelychol yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn gymesur i gynorthwyo â dysgu ac asesu
- 2.10 sicrhau bod y cwricwlwm yn cynnwys cydbwysedd rhwng cyfleoedd dysgu theori ac ymarferol, gan ddefnyddio ystod o strategaethau dysgu ac addysgu
- 2.11 sicrhau bod rhaglenni sy'n cael eu cyflwyno yng Nghymru'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sy'n hybu defnydd o'r Gymraeg, a
- 2.12 sicrhau bod hyd rhaglenni'n addas i gynorthwyo myfyrwyr i gyflawni pob un o safonau hyfedredd a deilliannau rhaglen eu dyfarniad.

3. Dysgu ymarfer

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy:

- 3.1 sicrhau bod trefniadau a mesurau llywodraethu addas ac effeithiol ar waith ar gyfer dysgu ymarfer i bob myfyriwr, gan gynnwys trefniadau sydd wedi'u teilwra'n benodol i'r ymgeiswyr hynny sy'n hunangyflogedig a/neu'n ariannu eu hunain

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

- 3.2 sicrhau bod myfyrwyr yn gweithio mewn partneriaeth â'r darparwr dysgu a'u partneriaid dysgu ymarfer i drefnu goruchwyliaeth ac asesiadau sy'n cydymffurfio â Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr yr NMC
- 3.3 darparu cyfleoedd dysgu ymarfer sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu, gwneud cynnydd a chyflawni'r Safonau hyfedredd ar gyfer:
- 3.3.1 y maes ymarfer SCPHN a fwriadwyd: ymwelwyr iechyd, nyrsio iechyd galwedigaethol, nyrsio ysgol
- 3.3.2 SPQ a fwriadwyd: gall y rhain fod ym meysydd nyrsio plant cymunedol, nyrsio anabledau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal, nyrsio ymarfer cyffredinol neu mewn maes/meysydd eraill o nyrsio cymunedol
- 3.4 sicrhau bod dysgu ymarfer yn cydymffurfio â Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr yr NMC
- 3.5 ystyried anghenion dysgu unigol ac amgylchiadau personol y dysgwyr wrth ddyrannu eu dysgu ymarfer, gan gynnwys gwneud addasiadau rhesymol i fyfyrwyr ag anabledau

4. Goruchwyllo ac asesu

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

- 4.1 sicrhau bod y cymorth, goruchwyllo, dysgu ac asesu a gaiff myfyrwyr yn cydymffurfio â Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth yr NMC
- 4.2 sicrhau bod goruchwyllo ymarfer, asesu ymarfer ac asesu academiaidd yn cydymffurfio â Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr yr NMC
- 4.3 rhoi adborth adeiladol i fyfyrwyr drwy gydol y rhaglen i gefnogi eu dysgu a'u datblygiad i gyrraedd y safonau hyfedredd a deilliannau dysgu'r rhaglen ar gyfer:
 - 4.3.1 y maes ymarfer SCPHN a fwriadwyd ganddynt: ymwelwyr iechyd, nyrsio iechyd galwedigaethol, nyrsio ysgol, neu
 - 4.3.2 SPQ a fwriadwyd ym maes: nyrsio plant cymunedol, nyrsio anabledau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal, nyrsio ymarfer cyffredinol, neu mewn maes/meysydd eraill o nyrsio cymunedol
- 4.4 sicrhau bod holl safonau hyfedredd SCPHN a safonau hyfedredd SPQ yn cael eu cofnodi mewn cofnod cyflawniadau parhaus sy'n cadarnhau eu bod wedi cyflawni'r safonau hyfedredd
- 4.5 asesu addasrwydd y myfyriwr ar gyfer dyfarniad a chadarnhau hyfedredd cyffredinol sy'n seiliedig ar gwblhau cyfnod o ddysgu ymarfer yn llwyddiannus sy'n berthnasol i'r:
 - 4.5.1 maes ymarfer SCPHN a fwriadwyd: ymwelwyr iechyd, nyrsio iechyd galwedigaethol, nyrsio ysgol, neu
 - 4.5.2 SPQ a fwriadwyd ym maes: nyrsio plant cymunedol, nyrsio anabledau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal, nyrsio ymarfer cyffredinol, a/neu mewn maes/meysydd eraill o nyrsio cymunedol
- 4.6 sicrhau bod goruchwylwyr ymarfer wedi ymgymryd â chyfnod o diwtoriaeth yn unol ag egwyddorion tiwtoriaeth yr NMC fel SCPHN neu SPQ neu eu bod yn gallu dangos tystiolaeth o ddysgu blaenorol a phrofiad perthnasol fel goruchwylwyr ymarfer sy'n eu galluogi i hwyluso cyfleoedd dysgu effeithiol seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer myfyrwyr ôl-gofrestru
- 4.7 a sicrhau bod goruchwylwyr ymarfer ac academiaidd wedi ymgymryd â chyfnod o diwtoriaeth yn unol ag egwyddorion tiwtoriaeth yr NMC fel SCPHN neu SPQ neu eu bod yn gallu dangos tystiolaeth o ddysgu blaenorol a phrofiad perthnasol fel goruchwylwyr ymarfer sy'n eu galluogi i ymgymryd â phrosesau asesu teg, dibynadwy a dilys yng nghydestun SCPHN a/neu SPQ cymunedol

4.8 sicrhau bod y myfyriwr yn cael asesydd ymarfer sy'n nyrsys cofrestredig SCPHN neu SPQ cymunedol ar gyfer y rhaglen mae'r myfyriwr yn ei dilyn

4.8.1 mewn amgylchiadau eithriadol, gall yr un unigolyn gyflawni rôl goruchwyliwr ymarfer ac asesydd ymarfer am ran o'r rhaglen lle mae'r myfyriwr SCPHN/SPQ yn cael hyfforddiant mewn lleoliad dysgu ymarfer. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i'r myfyriwr, y goruchwyliwr/asesydd ymarfer a'r AEI ddangos pam bod angen i rolau'r goruchwyliwr ac asesydd ymarfer gael eu cyflawni gan yr un unigolyn.

5. Y cymhwyster i'w ddyfarnu

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

- 5.1 sicrhau bod y lefel academiaidd sylfaenol ar gyfer SCPHN a SPQ cymunedol sylfaenol ar lefel ôl-raddedig
- 5.2 rhoi gwybod i'r myfyriwr bod yn rhaid hysbysu'r NMC:
- 5.2.1 o'u dyfarniad SCPHN³ o fewn pum mlynedd ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus ac os na fyddant yn gwneud hynny mi fydd yn rhaid iddynt ymgymryd ag addysg a hyfforddiant ychwanegol neu gael profiad o'r fath a bennir yn safonau'r NMC ar gyfer cofrestru'r dyfarniad, neu
- 5.2.2 eu SPQ cymunedol⁴ o fewn pum mlynedd ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus ac os na fyddant yn gwneud hynny mi fydd yn rhaid iddynt ymgymryd ag addysg a hyfforddiant ychwanegol neu gael profiad o'r fath a bennir yn safonau'r NMC, er mwyn i'r dyfarniad gael ei ychwanegu fel anodiad at eu cofrestriad proffesiynol, a
- 5.3 chadarnhau ar ôl cwblhau rhaglen gymeradwy'r NMC sy'n paratoi ar gyfer SCPHN neu SPQ cymunedol yn llwyddiannus, sy'n cynnwys cymhwyster rhagnodi integredig, bod y nyrs gofrestredig (lefel 1), bydwraig gofrestredig neu SCPHN yn gymwys i'w cofnodi fel rhagnodydd
- 5.3.1 rhagnodydd annibynnol/atodol sy'n nyrs neu fydwraig (V300).

³Cofrestriad SCPHN <https://www.nmc.org.uk/registration/your-registration/scphn-registration/>

⁴Cymwysterau cofnodadwy <https://www.nmc.org.uk/registration/your-registration/recording-qualifications/>

Geirfa

Cydnabod dysgu blaenorol (RPL): proses sy'n galluogi dysgu ardystiedig neu ddysgu drwy brofiad blaenorol i gael ei gydnabod a'i dderbyn fel dysgu sy'n cyflawni rhai o ddeilliannau rhaglen. Mae hyn yn golygu ei fod yn cynnwys cyflawniad theori ac ymarfer.

Efelychiad: cynrychioliad artiffisial o senario ymarfer byd go iawn sy'n ategu datblygiad myfyriwr drwy ddysgu drwy brofiad gyda'r cyfle i ailadrodd, roi adborth, gwerthuso a myfyrio. Mae efelychiad effeithiol yn hwyluso diogelwch drwy gyfoethogi gwybodaeth, ymddygiadau a sgiliau.

Maes/meysydd nyrsio cymunedol penodedig eraill: gall hyn gynnwys nyrsys sy'n ymarfer yng nghyd-destun iechyd troseddwr, y sector gofal cymdeithasol, y sector hosbisau, fel sy'n cael eu pennu gan yr AEI a'u partner dysgu ymarfer.

Myfyriwr: unrhyw unigolyn sydd wedi cofrestru ar raglen addysg a gymeradwywyd gan yr NMC, boed llawn amser neu lai na llawn amser.

Nyrsio cymunedol: gofal a ddarperir gan nyrsys y tu allan i leoliad ffisegol amgylchedd ysbyty fel gofal a ddarperir lle mae pobl yn byw, yn y cartref neu'n agos at eu cartref, gofal preswyl, gofal mewn lleoliadau addysgol, gofal sylfaenol, clinigau cymunedol, canolfannau allgymorth, carchardai a lleoliadau neu sefydliadau cymunedol eraill.

Partneriaid dysgu ymarfer: sefydliadau sy'n darparu dysgu ymarfer sy'n angenrheidiol i gynorthwyo myfyrwyr cyn-cofrestru ac ôl-gofrestru i gyflawni safonau hyfedredd a deilliannau rhaglenni.

Pobl: unigolion neu grwpiau o bobl sy'n cael gwasanaethau gan nyrsys a bydwagedd, pobl iach a gwael, rhieni, plant, teuluoedd, gofalwyr, cynrychiolwyr, ac mae hefyd yn cynnwys addysgwyr, myfyrwyr ac eraill o fewn a'r tu allan i'r amgylchedd dysgu.

Sefydliadau addysg cymeradwy (AEI): y statws a ddyfernir gan yr NMC i sefydliad, neu ran o sefydliad, neu gyfuniad o sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth â darparwyr lleoliad ymarfer a dysgu seiliedig ar waith. Bydd AEI wedi rhoi sicrwydd inni eu bod yn atebol a galluog i gyflwyno rhaglenni addysg a gymeradwywyd gan yr NMC.

Sicrwydd ansawdd: Prosesau'r NMC i sicrhau bod yr holl AEI a'u rhaglenni addysg cymeradwy'n cydymffurfio â'n safonau.



Rôl y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth

Yr hyn rydym ni'n ei wneud

Ein gweledigaeth yw nyrso a bydwreigiaeth ddiogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr proffesiynol bron i 725,000 o weithwyr nyrso a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.

Rheoleiddio yw ein rôl graidd. Yn gyntaf, rydyn ni'n hyrwyddo safonau proffesiynol uchel ar gyfer nyrso a bydwreigiaeth ledled y DU, a chymdeithion nyrso yn Lloegr. Yn ail, rydyn ni'n cadw cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, byddwn yn ymchwilio pan fydd gofal nyrso neu ofal bydwreigiaeth yn mynd o chwith – rhywbeth sy'n effeithio ar lai nag un y cant o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn.

I reoleiddio'n dda, rydym yn cefnogi ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydyn ni'n creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfa pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau wrth weithio a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydyn ni hefyd yn cefnogi pobl sy'n rhan o'n hymchwiliadau, ac rydyn ni'n gwneud ein hunain yn fwy amlwg er mwyn i bobl deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u grymuso i lywio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn caniatáu i ni ddylanwadu ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydyn ni'n defnyddio ein llais i siarad o blaid amgylchedd gwaith iach a chynhwysol i'n proffesiynau.

Cymeradwywyd y safonau hyn gan y Cyngor yn eu cyfarfod ar (DATE TBC).